**Vaughan Gething AC / AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: Petition P-04-532
Ein cyf/Our ref: MA-P/VG/7843/16

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

8 Rhagfyr 2016

Annwyl Dai,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 10 Tachwedd ynghylch y ddeiseb i wella gwasanaethau niwrogyhyrol arbenigol yng Nghymru (Deiseb P-04-532).

Fel y nodwch yn eich llythyr, mae'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol (NCIG) yn adnewyddu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol, y bwriedir ei gyhoeddi yn haf 2017. Mae gwaith pellach i ddatblygu a gwella cynnwys y Cynllun Cyflawni ar ei newydd wedd ar y gweill. Bydd hyn yn llywio polisi gofal a gwasanaethau ar draws y byrddau iechyd. Mae Rhwydwaith Niwrogyhyrol Cymru (WNMN) a sefydliadau'r trydydd sector drwy gyfrwng Cynghrair Niwrolegol Cymru yn cael eu cynrychioli ar y Grŵp Gweithredu ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol ac felly byddant yn cael cyfle i lywio'r cynnwys.

Eleni, mae'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol wedi buddsoddi £120,000 o'r cyllid o £1 miliwn a gafodd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau ffisiotherapi ychwanegol a mwy o amser i gynghorwyr gofal teulu. Er y bu peth oedi wrth recriwtio, rwy'n deall bod WNMN, ar y cyd â byrddau iechyd, yn bwrw ati bellach i benodi ffisiotherapydd niwrogyhyrol arbenigol yn y De ac amser ychwanegol ar gyfer cynghorwr gofal teulu Band 6 ym mhob un o'r tri rhanbarth. Ynghyd â'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc, mae hefyd wedi buddsoddi £1.2 miliwn i ddatblygu gwasanaethau niwroadsefydlu ledled Cymru a ddylai fod o fudd i bobl sydd â chyflyrau niwrogyhyrol.

Mae WNMN wedi defnyddio Dogfen Weledigaeth Rhwydwaith Niwrogyhyrol Cymru ar gyfer datblygu gwasanaethau niwrogyhyrol arbenigol gwell, i ymgysylltu â byrddau iechyd a phartneriaid eraill o ran amcanion allweddol a gofynion cynllunio. Mae WNMN wedi cyflwyno achos i'r byrddau iechyd ar gyfer buddsoddi pellach i gynnal y gwasanaethau ac

Bae Caerdydd Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

mae'n gofyn i hyn gael ei gynnwys yng nghynlluniau tymor canolig integredig y byrddau iechyd ar gyfer 2017-18.

Rwy'n ymwybodol bod WNMN wedi pwysleisio'r angen, yn y tymor hir, am fwy o staff arbenigol niwrogyhyrol a gwell mynediad i wasanaethau adsefydlu generig a'r gwaith y maent yn ei wneud i fynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy gydweithio â rhwydweithiau llwyddiannus yn yr Alban a De-orllewin Lloegr. Rwy'n deall bod WNMN hefyd yn datblygu map gwasanaeth ar gyfer mynediad i wasanaethau arbenigol a generig ar gyfer pob bwrdd Iechyd, gan gynnwys gweithio ar draws ffiniau.

Gobeithio bod fy ymateb yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaethau sy'n ddiogel ac yn gynaliadwy i bobl â chyflyrau niwrogyhyrol yng Nghymru.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC / AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport